# Morloi

## yn Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion



# Seals

## in the Cardigan Bay Special Area of Conservation

Yn ymestyn o Fae Ceibwr yn Sir Benfro at Aberarth yng Ngheredigion ac yn cyrraedd bron 20 cilomedr allan i'r môr, mae Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion yn gwarchod y bywyd gwyllt a geir mewn oddeutu 1,000 cilomedr sgwâr o'r môr.

Mae morloi llwydion yn crwydro ledled yr Ardal Gadwraeth Arbennig a gellir eu gweld yn nofio ac yn chwarae yn y dyfroedd o amgylch yr arfordir ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Maent yn dod i'r lan i fwrw eu blew yn y gaeaf ac ar ddechrau'r gwanwyn, a bydd y benywod yn dod i'r lan i eni eu rhai bach yn ystod yr hydref. Efallai y gwelwch nhw a'u rhai bach gwyn blewog ar draethau o fis Awst i fis Tachwedd. Amcangyfrifir bod 66 o forloi bach yn cael eu geni bob blwyddyn o fewn Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion.

### Beth allwch chi ei wneud i helpu?

Mae morloi yn rheolaidd yn ymlacio ar draethau; mae hyn yn rhan o'u hymddygiad arferol ac mae'n rhoi amser iddynt dreulio eu bwyd a gorffwys. Gallwch chi helpu trwy wneud pob ymdrech i beidio â tharfu arnynt, yn enwedig pan fyddant ar y lan gyda'r rhai ifanc.

Gall morloi ifanc edrych fel pe baent wedi cael eu gadael; ond yn y mwyafrif o achosion, maent yn cael eu gadael ar y traeth tra bod y mamau'n mynd i chwilio am fwyd ac ni ddylid tarfu arnynt. Ni fydd y fam yn dychwelyd at ei morlo ifanc os oes yna bobl ar y traeth, ac mae aflonyddu'n gallu bygwth y cysylltiad rhwng y fam a'r un bach.

***Ni ddylid byth cwrso'r morloi bach yn ôl i mewn i'r môr gan fod hyn yn achosi llawer o drallod iddynt ac yn eu hatal rhag gwneud yr hyn sydd angen arnynt ar yr adeg hon - gorffwys a thyfu.***
***Hefyd, mae'r morloi ifanc swci'n nofwyr gwan.***

Os ydych yn pryderu am les morlo ac yn credu bod yr anifail yn sâl neu wedi ei anafu, adroddwch amdano i'r RSPCA ar 0300 1234 999.

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â:

For more information please visit:

www.cardiganbaysac.org.uk

Stretching from Ceibwr Bay in Pembrokeshire to Aberarth in Ceredigion and extending almost 20km from the coast, Cardigan Bay Special Area of Conservation (SAC) protects the wildlife found in around 1000km$^2$ of sea.

Grey seals range throughout the Cardigan Bay SAC and can be seen swimming and playing in the waters around the coast at any time of year.

They come ashore to moult in the winter and early spring, and females come ashore to pup in the autumn. You may see them and their fluffy white pups on beaches from August to November. It is estimated that some 66 pups are born within the Cardigan Bay SAC each year.

### What can you do to help?

Seals regularly haul out on beaches; this is part of their normal behaviour and allows time for them to digest their food and to rest. You can help by making every effort not to disturb them, especially while they are on the shore with young pups.


Young seals can often seem to be abandoned, in most cases however, the pups are left on the beach while their mothers are out foraging for food; and they should be left undisturbed. The female will not return to feed her pup if there are people on the beach and disturbance can threaten the mother-pup bond.

***Seal pups should never be chased back into the sea as this causes the pup significant distress and prevents them from doing what they need to do at this time – resting and growing.***
***Suckling pups are also poor swimmers.***

If you are concerned about the welfare of a seal and you believe the animal is sick or injured please report it to the RSPCA on 0300 1234 999.




## Ffeithiau Ffynci Funky Facts




Ystyr un cyfieithiad o’r enw gwyddonol yw ‘mochyn môr trwyngrwm’.

The translation of the scientific name means ‘hook nosed sea pig’.



Mae morloi’n dda iawn am blymio. Gallant aros o dan y dŵr am hyd at hanner awr, a gallant blymio i lawr i 70 metr.

Seals are good divers.
They can stay under water for up to 30 minutes, and can dive down to 70 metres.




Gall morloi dreulio 80% o’u hamser o dan y dŵr, a gallant hyd yn oed gysgu yn y dŵr.

Seals can spend 80% of their time under water, and can even sleep in the water.

Maent yn defnyddio eu wisgers i deimlo dirgryniadau llwybrau eu hysglyfaeth.

They use their whiskers to pick up the vibration trails of their prey.



## Cod Ymddygiad

*Caiff morloi eu hamddiffyn gan y gyfraith. Rydym yn ffodus i gael rhannu’r ardal arbennig yma â nhw.*

### O’r tir:

- Mae’n well gwylio’r morloi oddi ar lwybr yr arfordir – mae’n ddefnyddiol dod ag ysbienddrych gyda chi. Cymerwch ofal ar y clogwyni.
- Cadwch draw o’r traethau ble mae morloi bychain.
- Gall cŵn darfu’n fawr iawn ar y morloi.
- Gwyliwch mor dawel â phosibl, a chadwch broffil isel.
- Cadwch o leiaf 50 metr i ffwrdd, er mwyn osgoi aflonyddu.
- Os oes morlo bychan ar ei ben ei hun ar draeth, fel arfer mae’n golygu bod ei fam yn y dŵr gerllaw.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw’n ddigon pell i ffwrdd fel y gall ddod yn ôl at yr un bach pan fydd angen.

### O’r dŵr:

- Dylech osgoi glanio ar draethau geni’r morloi bychain neu ar draethau ble mae morloi’n ymlacio.
- Dylech osgoi dod rhwng mam a’i un bach.
- Cadwch gyflymder eich cwch yn araf wrth gyrraedd a gadael y lan, a chofiwch sicrhau mai dim ond un cwch sy’n gwylio’r morloi ar y tro.
- Cadwch o leiaf 50 metr i ffwrdd.
- Symudwch draw os sylwch ar unrhyw arwyddion bod y morloi’n aflonyddu.
- Peidiwch â cheisio nofio gyda’r morloi na’u cyffwrdd na’u bwydo.







## Code of conduct

*Seals are protected by law. We are lucky to share our special place with them.*

### From land:

- Seals are best viewed from the coastal path. A pair of binoculars can be useful. Please take care on the cliffs.
- Keep off beaches with seal pups present.
- Dogs can be particularly disturbing to seals.
- Watch quietly, and keep a low profile.
- Keep at least 50 metres away to avoid disturbance.
- If a pup is alone on a beach it usually means that its mother is nearby in the water.
- Make sure you keep well away so she can return to her pup when she needs to.

### From the water:

- Avoid landing on pupping beaches or beaches where seals are hauled out.
- Avoid coming between a mother and her pup.
- Keep boat speed low on arrival and departure, and ensure there’s only one boat at a time viewing seals.
- Keep at least 50 metres away.
- Move away if you notice signs of disturbance.
- Do not try to swim with, touch or feed seals.

Cynhyrchwyd y daflen wybodaeth hon gyda chyllid wrth Gyfoeth Naturiol Cymru ar ran Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion.
Mae’r darluniau wedi eu hatgynhyrchu gyda chaniatâd caredig Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
This leaflet was produced with funding from Natural Resources Wales on behalf of the Cardigan Bay SAC Relevant Authorities Group.
This leaflet has been adapted from the Pembrokeshire Coast National Park Authority ‘Seals’ leaflet.
The illustrations have been reproduced with kind permission from Pembrokeshire Coast National Park Authority.
Lluniau/Photography: David Horsley

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Dŵr Cymru Welsh Water
Trinity House